

Datganiad a Chanllawiau Diogelu a Lles Dysgwyr Caead Campysau Coleg Penybont oherwydd COVID-19



Er bod campysau Coleg Penybont yn parhau i fod ar gau, mae diogelwch a lles ein dysgwyr yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Bwriad y canllawiau hyn yw ychwanegu at [bolisi diogelu'r Coleg](#), ac nid yw'n newid ein cyfrifoldebau, ein disgwyliadau na'r safonau sylfaenol yr ydym yn mynnu gan ein staff, ein dysgwyr a'n rhanddeiliaid eraill.

Rydym yn parhau i fonitro a dilyn cyngor a chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac rydym yn cydnabod, tra bod y campysau'r Coleg ar gau, bod dysgwyr a staff yn ddibynnol ar gysylltedd o bell ac ar-lein i gyfathrebu ac i barhau i ddysgu, addysgu a darparu cymorth.

Byddwn yn parhau i ddiweddarau dysgwyr a staff trwy e-bost, SMS, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan bwrpasol, sydd hefyd yn cynnwys cwestiynau cyffredin sy'n cael eu diweddarau'n aml: www.bridgend.ac.uk/coronavirus

Prydau Coleg am Ddim

Mae mecanweithiau mewn lle i brosesu taliad wythnosol i bob dysgwr sy'n gymwys ac sy'n derbyn prydau coleg am ddim. Mae taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrifon banc y dysgwyr trwy BACS pob wythnos ar ddydd Llun.

Bydd taliadau hefyd yn cael eu gwneud dros wyliau'r Pasg.

Lles a Bregusrwydd

Mae ein Tîm Lles Myfyryr yn ffonio'r dysgwyr hynny y nodwyd eu bod yn fregus neu mewn perygl er mwyn gwirio eu bod yn iawn. Bydd y galwadau ffôn hyn yn digwydd yn wythnosol fel arfer.

Caledi Ariannol

Mae Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (WGLG) yn cael eu talu yn unol â'r cylchredau talu arferol, sef yn wythnosol ar gyfer LCA, a phob tymor ar gyfer WGLG.

Lles

Gwyddom fod lles meddyliol a chymorth yn gynyddol bwysig yn ystod cyfnod o hunanynysu, chyfyngiadau ar ryngweithio cymdeithasol, a chadw pellter cymdeithasol.

Mae ein Tîm Lles yn weithredol rhwng 8:30yb a 5:00yp o ddydd Llun i ddydd Gwener.

E-bost wellbeing@bridgend.ac.uk

Ffôn neu SMS: 07971 670 504 / 07800 598 090 / 07973 716 794

Gwefan: www.bridgend.ac.uk/wellbeing

Cymorth Dysgu Ychwanegol

Mae ein tîm Cymorth Dysgu Ychwanegol yn darparu cymorth o bell trwy Google Classrooms a Google Meet. Gallwch gysylltu â'r tîm trwy e-bostio aln@bridgend.ac.uk

Datganiad a Chanllawiau Diogelu a Lles Dysgwyr Caead Campysau Coleg Penybont oherwydd COVID-19



Cynlluniau Amddiffyn Plant, rhai sy'n Derbyn Gofal, neu rai mewn Perygl Mawr

Bydd ein Tîm Lles yn parhau i fod yn brif gyswllt i weithwyr cymdeithasol a gwasanaethau cymorth ehangach yn ystod caead y campysau.

Adrodd Pryder

Dylai'r holl staff barhau i ddilyn protocolau adrodd arferol y Coleg os oes unrhyw bryder ganddynt am ddysgwr.

Oherwydd y pwysau ychwanegol sydd ar wasanaethau, teuluoedd a phobl ifanc o ganlyniad i COVID-19, mae angen bod yn fwy gwyliadwrus yn hytrach na gostwng ein safonau a lleihau'r cymorth yr ydym yn ei gynnig.

Os yw plentyn neu berson ifanc mewn perygl o niwed difrifol ac nid yw gwasanaethau lleol yn gallu ymateb, bydd y Coleg yn dilyn y gweithdrefnau diogelu sy'n cydymffurfio â Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ar unwaith: www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk

Diogelwch Ar-lein

Mae'r Coleg yn monitro defnydd systemau TG a dyfeisiau sy'n eiddo i'r Coleg, ac yn defnyddio meddalwedd fonitro sy'n gallu adnabod trawiadau bysellau gan ddefnyddio cronfeydd geirfa bygythiol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae monitro o'r fath yn galluogi hysbysu'r rheini sy'n gyfrifol em ddiogelu yn y Coleg ar unwaith am unrhyw ddigwyddiadau, gan ddarparu gwybodaeth am natur y digwyddiad, rhif ased y dyfais, a'r defnyddiwr. Defnyddir monitro er mwyn sicrhau diogelwch yr holl fyfyrwyr a staff, ac i leihau'r perygl sy'n gysylltiedig â meithrin perthnasau amhriodol ar-lein, ecsbloetiaeth rywiol, masnachu, radicaliaeth, eithafiaeth, a gweithgareddau anghyfreithlon eraill.

Os yw bwlio cymar-i-gymar yn digwydd, dylid annog dysgwyr i ddefnyddio gwasanaethau diogelwch ac adrodd ar y llwyfannau ac apiau ar-lein. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys adrodd i ddarparwr y llwyfan a blocio defnyddwyr.

Os yw bwlio neu aflonyddu cymar-i-gymar yn digwydd rhwng dysgwyr Coleg Penybont, gellir rhannu pryderon â Thîm Lles y Coleg i gael cymorth pellach, cyfeiriad ac ymyriad.

Lles Meddyliol

Bydd y cyfyngiadau presennol yn cael effaith ar les pawb. Mae'n bwysig cymryd camau rhesymol i gadw mewn cysylltiad â phobl mewn modd diogel er mwyn lleihau effaith mesurau cadw pellter cymdeithasol a hunanynysu.

[Cyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Lles Staff a Dysgwyr](#)

[Cyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cadw'n Ffit a Phrysur](#)

Datganiad a Chanllawiau Diogelu a Lles Dysgwyr
Caead Campysau Coleg Penybont oherwydd COVID-19

Manylion Cyswllt Allweddol

Enw a Rôl	Rhif Cyswllt	E-bost
Joe Baldwin Arweinydd Diogelu Dynodedig		jbaldwin@bridgend.ac.uk
Samantha Gunnarsson Rheolwr Diogelu a Lles	07971 670504	wellbeing@bridgend.ac.uk
John Morgan Swyddog Lles	07800 598090	wellbeing@bridgend.ac.uk
Mandy Shepherd Swyddog Lles		wellbeing@bridgend.ac.uk
Bethan Lloyd Gweinyddwr Profiad y Myfyrwyr	07973 716794	wellbeing@bridgend.ac.uk
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Amddiffyn Plant a Diogelu	01656 642320 Tîm Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa: 01443 743665	earlyhelp@bridgend.gov.uk

Mewn argyfwng (bygythiad neu berygl enbyd i fywyd) dylech bob amser ffonio 999